

Adroddiad Sefyllfa Marchnad Gofal Cymdeithasol Cymru (Effaith COVID-19)



Consortiwm Comisiynu
Cymru ar gyfer Plant
Childrens' Commissioning
Consortium Cymru
Cydwethio Er Gwell • All Together Better


Ionawr 2021

Cynhyrchwyd gan Maria Bell, Pennaeth Polisi, Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Karen Benjamin, Rheolwr Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru (4Cs)

Ar ran: Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol

Cyhoeddwyd: Mai 2021


Maria Bell

 07436 140838

 maria.bell@wlga.gov.uk

<https://www.wlga.cymru/national-commissioning-board-wales>

Karen Benjamin

 01443 570098

 Karen.Benjamin@rctcbc.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Rhagymadrodd	1
Cyd-destun y farchnad	3
Yr economi sylfaenol a gofal cymdeithasol	3
Y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i Gwerth Economaidd	3
Effaith COVID-19 ar ofal a chymorth yng Nghymru	4
Crynodeb gweithredol: Prif negeseuon.....	6
Crynodeb gweithredol: Ystyriaethau'r dyfodol	8
Crynodeb gweithredol: Data allweddol.....	9
Cofrestriadau a ganslwyd yng Nghymru (1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020)	11
Hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth reoleiddiol a gyhoeddwyd yng Nghymru (1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020).....	12
Asesiad risg y farchnad genedlaethol	13
Cyflwr y farchnad	15
Pa ystyriaethau oedd yn effeithio ar y farchnad cyn y pandemig?	15
Cyfleoedd am ddyfodol marchnadoedd gofal cymdeithasol yng Nghymru	17
Argymhellion	19

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn **SWYDDOGOL SENSITIF** ac yn dod o dan gytundeb mynediad data ac felly ni fydd ar gael yn gyhoeddus. Rhennir yr adroddiad llawn hwn â:

- Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwyr perthnasol Byrddau Iechyd (e.e. cynllunio a chontractio).
- Penaethiaid perthnasol gwasanaethau Oedolion a Phlant mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd.
- Swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru.
- Swyddogion perthnasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Cyhoeddir yr adroddiad cryno hwn ar dudalen we'r [Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol](#) mis Mai 2021..

Rhagymadrodd

Cynhyrchwyd yr asesiad hwn ar gais Julie Morgan, AS - Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru - a'i gynnal gan Bennaeth Polisi'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Rheolwr y Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru (4Cs), gyda chefnogaeth Data Cymru a data oddi wrth GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Ei nod oedd:

- Casglu'r data a'r wybodaeth sydd ar gael am effaith COVID-19 ar y farchnad gofal cymdeithasol;
- Asesu 'sefyllfa'r farchnad' o ran sefydlogrwydd cyffredinol darpariaeth allweddol, nodi meysydd sy'n agored i niwed a risgiau i sefydlogrwydd;
- Nodi unrhyw gyfleoedd am dwf mewn meysydd penodol darpariaeth gofal cymdeithasol; a
- Gwneud argymhellion am gamau pellach ar sail casgliadau'r adolygiad.

Ffocws yr asesiad hwn o 'sefyllfa'r farchnad' oedd y gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig i oedolion a phlant, pobl ifanc a theuluoedd, yn benodol:

- Cartrefi gofal a chartrefi gofal gyda nyrsio i blant, oedolion 18 i 64 oed ac oedolion hŷn;
- Gwasanaethau gofal maeth; ac
- Asiantaethau cymorth cartref gan gynnwys byw â chymorth.

Lle bo'n briodol, cyfeirir at opsiynau gofal a chymorth eraill sydd efallai'n gweithredu dan amodau 'marchnad'¹ neu beidio.

Seilir yr asesiad hwn ar adolygiad o dystiolaeth o sefydlogrwydd, digonolrwydd a chynladwyedd y 'farchnad' gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig cyn dechrau'r pandemig ac effaith y don gyntaf o COVID-19 (Mawrth – Medi 2020). Mae rhywfaint o'r data yn estyn tu hwnt i'r cyfnod hwn hefyd hyd Rhagfyr 2020.

Barn yr awduron sy'n cael ei mynegi yma, fel y'i thrafodwyd â Bwrdd Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru (4Cs) a Grŵp Gweithredol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, gan obeithio y bydd yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

¹ At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddiwn y diffiniad canlynol o'r 'farchnad gofal cymdeithasol': "system economaidd sy'n seiliedig ar farchnad annibynnol a weithredir ar y cyd â darpariaeth y wladwriaeth; mae marchnad rydd yn un lle mae prisiau'n cael eu pennu gan gystadleuaeth dirwysr rhwng busnesau sydd mewn perchnogaeth breifat".

Argymhellir y dylai gwaith barhau i fapio effaith y pandemig a datblygiadau polisi gan fod:

- Ar adeg ysgrifennu achosion sydd wedi'u cadarnhau² gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) yn rhoi tystiolaeth o drosglwyddiad uchel yn y gymuned. Rydym yn ymwybodol bod gweithgarwch a galw yn y system iechyd a gofal yn codi ac yn debygol o barhau i wneud hyd diwedd yr amcanestyniadau presennol (diwedd Mawrth 2021).
- Yn yr wythnosau o 30 Rhagfyr 2020 tan 18 Ionawr 2021, mae sawl awdurdod lleol wedi adrodd pwysau yng nghapasiti'r farchnad gofal oedolion (gallu i fodloni'r galw am ofal cartref a gofal preswyl) ac yn y gallu i ddarparu cymorth ailalluogi (mewn rhai achosion, o ganlyniad i ddefnydd staff i gefnogi dilyniant gwasanaeth yng ngwasanaethau'r sector annibynnol â brigiadau achosion).
- Gyda'r mwyafrif o gartrefi gofal yn adrodd brigiad a'r disgwyl i ofal cartref ddod o dan bwysau eithriadol yn yr wythnosau nesaf, mae capasiti yn parhau i gael ei gyfaddawdu gan y camau sy'n angenrheidiol i reoli lledaeniad COVID-19 e.e. hunan-ynysu a gwarchod, gofyniad am brofion negyddol/heintusrwydd isel cyn trosglwyddo gofal, embargo ar drosglwyddiadau i gartrefi gofal gyda phrawf positif a chyflwyniad profion ymhlith y gweithlu gofal cartref.
- Mae adroddiadau am am argaeledd gweithlu yn amrywio. Er i arwyddion cynnar o wasanaethau cymorth cartref (85%-96% yn adrodd i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)) awgrymu bod COVID-19 wedi cael mân effaith ar eu lefelau staffio ar ôl wythnosau cyntaf y pandemig hyd at yr haf 2020, mae rhai darparwyr yn cyfeirio at 25% – 50% o staff heb fod ar gael o Fawrth 2020 tan heddiw. Ar ddiwedd Rhagfyr 2020, adroddodd 63% o ddarparwyr staff a oedd wedi profi'n positif. Mae tystiolaeth hefyd o absenoldeb uwch ymhlith y gweithlu mewn awdurdodau lleol.
- Mae risgiau wrth ddibynnu ar leoedd gwag mewn cartrefi gofal i fodloni ymchwydd yn y galw gan y gall y llwybr hwn gau'n gyflym os bydd prawf positif neu frigiad posibl yn troi'r cartref yn 'goch'. Mewn rhai ardaloedd mae hynny'n 50% a throsodd o'r holl gapasiti.
- Os bydd agor capasiti ymchwydd yn y GIG yn tynnu'r gweithlu o ofal cymdeithasol, symudwn y dagfa ymhellach i lawr y gadwyn i mewn i ofal cymdeithasol, a fydd yn effeithio ar lif ysbytai.

Mae'r awduron yn cydnabod bod papur gwyn Llywodraeth Cymru³ "*Ailgydbwyso gofal a chymorth: Ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well*" yn cydnabod rhai o'r ystyriaethau a godir yn yr adroddiad hwn a'i argymhellion.

² [Feiroleg COVID-19 cyflym - Cyhoeddus - Diogelu Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru | Tabl Cyhoeddus](#) (Saesneg yn unig).

³ https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/dogfen-ymgyngori_0.pdf.

Cyd-destun y farchnad

Yr economi sylfaenol a gofal cymdeithasol

Mae'r gwasanaethau a chynhyrchion o fewn yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a gwasanaethau sylfaenol hynny mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, ac sy'n ein cadw'n ddiogel, yn iach ac yn wâr. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr ar y stryd fawr i gyd yn enghraifftiau o'r economi sylfaenol. Mae'r diwydiannau a'r cwmnïau yno am fod **pobl** yno. Mae amcangyfrifon yn awgrymu eu bod yn cyfrif am bedair o bob deg swydd a £1 ym mhob tair a wariwn.

Mewn rhai rhannau o Gymru, yr 'economy sylfaenol' hon yw'r economi⁴, h.y., iechyd a gofal a sectorau eraill yr economi sylfaenol yw'r cyflogwyr mawr.

Y farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i Gwerth Economaidd⁵

Yn 2016 amcangyfrifwyd bod Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y sector gofal cymdeithasol oedolion yn £1.2 biliwn. Amcangyfrifwyd bod y rhan fwyaf o hyn mewn gofal preswyl (£328 miliwn, 28%).

- Roedd hyn yn cynrychioli 1.9% o'r holl GVA yng Nghymru.
- Lefel gyfartalog cynhyrchedd (GVA am bob swydd Cyfwerth Ag Amser Llawn) yn y sector yn ôl yr amcangyfrif oedd £18,700 – ac felly'n uwch na'r sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, celfyddydau, adloniant a hamdden a chyflenwi dŵr, carthffosiaeth a rheoli gwastraff.

Ar ei ehangaf, mae'r term 'marchnad gofal cymdeithasol' yn cyfeirio ar y cyd-destun lle mae awdurdodau lleol, y GIG neu unigolion yn prynu gofal a chymorth (drwy gyfrwng caffael neu drefniadau eraill) i fodloni anghenion gofal a chymorth unigolyn a'i helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol; a lle mae darparwyr gofal a chymorth yn ceisio ennill contractau neu fel arall drefnu i ddarparu gofal a chymorth i'r unigolion hynny.

Mae'r farchnad gofal cymdeithasol felly yn fan cyfnewid, lle caiff cyllid y wladwriaeth a phreifat ei ddefnyddio i sicrhau gofal a chymorth ar gyfer (ac weithiau gan) yr unigolion hynny sydd ei angen. Mae'r farchnad gofal cymdeithasol yn amrywiol, gan adlewyrchu'r ystod eang o anghenion gofal a chymorth a'r llawer o ddulliau y gallant gael eu bodloni. Mae hefyd yn farchnad sy'n esblygu wrth i anghenion a disgwyliadau newid. Yn benodol wrth i Fyrddau Iechyd gaffael gwasanaethau'n gynyddol oddi wrth wasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig i fodloni anghenion gofal iechyd mwy cymhleth.

Gyda chymaint o amrywiaeth, mae efallai'n gywirach sôn am 'farchnadoedd' gofal cymdeithasol yn hytrach nag un farchnad. Mae rhai o'r marchnadoedd hyn yn gweithredu trwy gystadleuaeth (e.e., cartrefi gofal oedolion), tra bod eraill yn cael eu rheoli'n fwy (e.e., mabwysiadu).

⁴ [Busnes Cymru: Yr Economi Sylfaenol](#).

⁵ [Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Cymru, ICF Consulting \(2016\)](#) (Saesneg yn unig).

Efallai bod defnyddio'r term 'marchnad' neu 'farchnadoedd' yn awgrymu bod elfen o ddewis i'r sawl sy'n comisiynu ac yn caffael, yn ogystal ag i unigolion, yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond mewn rhai rhannau o'r farchnad, mewn gwirionedd, ychydig o ddewis sydd am ddarpariaeth. Bydd [rheoliadau sefydlogrwydd y farchnad o Ebrill 2021](#) ymlaen yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol gyda Byrddau Iechyd a phartneriaid eraill i asesu digonolrwydd gwasanaethau (gan gynnwys dewis ac ansawdd) ochr yfwr ochr â chynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth (am ofal a chymorth).

Darperir llawer o'r gofal a chymorth sy'n cael ei gyflenwi yng Nghymru tu allan i'r farchnad yn gyfan gwbl. Er enghraifft, y llawer o oriau o ofal di-dâl sy'n cael eu ddarparu gan deulu a ffrindiau anffurfiol, yr asesir ei fod yn werth tuag £8 biliwn y flwyddyn (pedair gwaith gwariant awdurdodau lleol ar ofal cymdeithasol).

Effaith COVID-19 ar ofal a chymorth yng Nghymru

Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru adroddiad⁶ ym Medi 2020, a roddodd fanylion 'trosolwg o adborth oddi wrth alwadau gwirio AGC i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig i oedolion a phlant y sector gofal cymdeithasol'. O fewn yr adroddiad, rhoddwyd manylion bod:

- **Pandemig COVID-19 wedi profi gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn ffordd na welwyd ei thebyg o'r blaen a'u bod wedi codi i'r her.**
- **Mae'r ymateb i COVID-19 wedi dangos proffesiynoliaeth ac ymroddiad y sawl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol ac ymrwymiad y gofawyr teuluol, ond hefyd datgelodd ddiffygion a bylchau o fewn y system.**
- Mae pob gwasanaeth gofal cymdeithasol wedi teimlo **effaith COVID-19**, gan gynnwys gwasanaethau cymorth cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal i blant. Fodd bynnag, mae **wedi effeithio'n anghymesur ar gartrefi gofal i bobl hŷn – y bobl sy'n byw a'r sawl sy'n gweithio yno**. Yng Nghymru, roedd gan 35% o gartrefi gofal i oedolion frigiad COVID-19 yn ystod y cyfnod hwn⁷. Dengys y dystiolaeth ryngwladol⁸ unwaith mae COVID-19 yn bresennol mewn cartref gofal **"mae'n anodd ei reoli, y rhannol oherwydd nifer y bobl sy'n byw yn agos at ei gilydd mewn cyfleusterau a ddyluniwyd am fywyd cymunol a'r ffaith bod gofal personol yn mynnu agosatrwydd."**

Mae canfyddiadau allweddol y gwaith hwn yn cynnwys:

- Pwysigrwydd ymagwedd seiliedig ar hawliau a chyd-gynhyrchu wrth wneud penderfyniadau.
- Cydnabod, a lleihau cymaint â phosibl, yr effaith sydd gan fethu â gweld teulu a ffrindiau ar lesiant meddwl llawer o bobl.
- Mynediad parhaus i hyfforddiant a chymorth atal a rheoli haint a phwysigrwydd mynediad i gyfarpar diogelu personol digonol (gydag eglurdeb ynghylch ei ddefnydd) ac i brofion gyda'r canlyniadau ar gael yn amserol.
- Pwysigrwydd rhwydweithiau cymorth a chefnogaeth llesiant arall i reolwyr a gweithwyr gofal gan gydnabod natur ynysig llawer o'r darparwyr bach yng Nghymru.
- Pwysigrwydd parhad o ran staffio oherwydd risg uwch staff asiantaeth a banc yn trosglwyddo'r feirws os ydynt yn gweithio ar draws gwasanaethau gwahanol⁹.

⁶ <https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2020-09/200925-COVID-19-Trosolwg-adborth-gan-sector-gofal-cymdeithasol-cy.pdf>.

⁷ Erbyn diwedd Rhagfyr, cododd hyn i 51%.

⁸ Ffynhonnell: Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

⁹ Yn ôl AGC, mewn arolygon a gynhaliwyd yn ystod Mai 2020 a Mehefin 2020, gofynnwyd i gartrefi gofal adrodd ar eu defnydd ar staff asiantaeth – adroddodd bron 20% ddefnyddio staff asiantaeth, a leihaodd i 17% mewn arolwg diweddarach.

- Cydnabod bod darparwyr yn bartneriaid mewn gofal, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau o'r ysbyty, fel y mae aelodau'r teulu i lawer o bobl.
- Pwysigrwydd technoleg ddigidol fel cymorth cyfathrebu; gyda gwasanaethau'n defnyddio technoleg mewn amrywiaeth o dulliau: i hwyluso cysylltiad rhwng pobl ac aelodau eu teulu; i ddarparu gweithgareddau ychwanegol i bobl; neu i gysylltu â gweithwyr proffesiynol a hyfforddiant staff. Roedd dysgu ar-lein/o bell wedi galluogi gwasanaethau i gadw hyfforddiant a chefnogaeth i'w staff yn gyfredol. I rai darparwyr, roedd cysylltedd â'r rhynggrwyd ac anawsterau technegol gydag offer yn her arbennig ac nid oedd pob gwasanaeth na gweithiwr proffesiynol wedi'u sefydlu'n ddigodol ac roedd hyn yn rhwystr i gyfathrebu.

Crynodeb gweithredol: Prif negeseuon

Roedd y farchnad gofal cymdeithasol mewn anawsterau cyn y pandemig, gyda rhai rhannau o'r farchnad yn dioddef prinderau cyllid arwyddocaol, llawer os nad pob un yn cael anawsterau wrth recriwtio a chadw gweithlu a heriau wrth ymateb i reoliadau newydd a gofynion cymwysterau'r gweithlu. Mae [strategaeth a methodoleg comisiynu a chaffael](#) yn cael effaith ar siâp y farchnad hefyd.

Mae'r risgiau a'r heriau hyn yn dal yn bresennol, gyda'r pandemig ac ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn dod â mwy o ansicrwydd hefyd.


Yn ystod y pandemig, mae'r sector annibynnol wedi adrodd lefelau sylweddol o ddiffyg argaeledd staff, sy'n effeithio ar allu i fodloni'r galw. **Dengys data rhyddhau gohiriedig o ysbytai mai'r rheswm pennaf am ohirio yw aros am becyn gofal a chymorth gartref.**

Yn gyferbyniol, mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi sylwi bod bwlch sylweddol rhwng ffioedd cyfartalog cartref gofal pobl hŷn 2020/21 a dalwyd gan gomisiynwyr statudol yng Nghymru a chost gofal ansawdd da, cynaliadwy o 2021/22; mae risgiau ariannol cyfyngedig i barhad busnes yn y farchnad gofal preswyl plant gan mai darparwyr, nid comisiynwyr, sy'n pennu prisiau. Yn y farchnad galw uchel, capasiti isel hon, mae cyfleoedd am negodi sylweddol yn gyfyngedig ond mae tryloywder cymarebau cost i bris.

At ei gilydd, mae gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru wedi ymateb yn effeithiol i'r pwysau a'r risgiau ychwanegol sydd wedi dod gyda'r pandemig coronafeirws COVID-19.

Yn wahanol i Loegr, mae cyllid ychwanegol a chyfarpar diogelu personol (PPE) am ddim, cefnogaeth leol, ac ymagwedd gyd-gynhyrchiol at ddatblygu polisi yng Nghymru wedi galluogi gwasanaethau i barhau ar waith; yn wir, bu twf a datblygiadau newydd:

- Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020, cofrestrodd 88 gwasanaeth gofal a chymorth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC):
 - 45 asiantaeth gartref;
 - 36 cartref gofal;
 - 19 i blant (gan gynnwys dau gartref awdurdod lleol);
 - 14 i oedolion; a
 - thri i oedolion a phlant.
 - Tri gwasanaeth maethu;
 - Dau wasanaethau mabwysiadu;
 - Un gwasanaeth lleoli oedolion; ac
 - Un gwasanaeth eiriolaeth.
- Roedd 75 o'r 88 yn wasanaethau newydd.
- Roedd 13 o'r 88 yn wasanaethau anghofrestredig (naill ai wedi'u trosglwyddo i ddarparwr newydd neu wedi ail-gofrestru o dan RISCA).



- Cofrestrodd dau awdurdod lleol (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Casnewydd) gartrefi gofal plant newydd ac mae Cyngor Sir y Fflint yn ehangu un o'i gartrefi gofal. er bod tystiolaeth o fuddsoddiad gan y sector preifat yn y farchnad gofal, ni chofrestrodd yr un sefydliad elusennol wasanaethau cartref gofal newydd o fewn y cyfnod hwn.
- Cafodd cofrestriadau 12 gwasanaeth eu canslo gan gynnwys:
 - Pum cartref gofal oedolion heb nyrsio;
 - Ceuodd un Cartref Gofal Oedolion gyda nyrsio yn Rhagfyr 2020 (dan drefniant cynlluniedig).
 - Un cartref gofal plant; a
 - Chwe gwasanaeth cymorth cartref.
- Cyhoeddwyd 45 o hysbysiadau diffyg cydymffurfio i wasanaethau cartref gofal.

Crynodeb gweithredol: Ystyriaethau'r dyfodol

Mae llawer o'r argymhellion i'r Llywodraeth a chomisiynwyr yn [adolygiad cenedlaethol AGC 2016 o ofal cartref yng Nghymru](#) yn dal yn berthnasol yn 2021.

Mewn rhai ardaloedd bydd angen ymdrin yn strategol â'r cydbwysedd galw a chyflenwad mewn mathau gwahanol o ddarpariaeth cartrefi gofal pobl hŷn (gofal preswyl, nyrsio a dementia) er mwyn diwallu anghenion y dyfodol.

Mae anghysondeb rhwng anghenion y plant a phobl ifanc sydd angen cartrefi a'r modelau gwasanaeth neu ofal sy'n cael eu cynnig gan y farchnad. Mae digonolrwydd ar bwynt critigol wrth i'r galw barhau i dyfu ar ben uchaf y continwwm angen.

Y plant a phobl ifanc haws eu niweidio yng Nghymru yw'r rhai sy'n wynebu'r risg uchaf oherwydd prinder darpariaeth i gynnig pecynnau gofal cymhleth. Mae trefniadau partneriaeth newydd, mwy cymhleth, rhwng y sector cyhoeddus a phreifat, wedi wynebu heriau gyda materion cofrestru a gweithredol ond roeddent yn arloesiadau angenrheidiol i lenwi bylchau yn y farchnad. Mae rhan bwrpasol hon y farchnad yn debygol o barhau i gynyddu.

Daw risgiau i gynladwyedd y farchnad faethu annibynnol yn bennaf o fwriadau comisiynwyr i siapio'r farchnad h.y. y lleoliad sy'n cael ei ffafrio bob tro yw lleoliad sector cyhoeddus.

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at fwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd (yn bennaf mewn gwasanaethau oedolion), rhwng comisiynwyr a darparwyr, a rhwng comisiynwyr a rheoleiddwyr. Gallai'r gydnabdydiaeth a'r parch cilyddol yma fod yn blatfform effeithiol ar gyfer adeiladu trafodaeth agored a thryloyw a hybu gwir gydgyhyrchu.

Mae cyfleoedd am dwf a datblygiad mewn modelau gwasanaeth newydd gan gynnwys rhannu bywydau, modelau newydd o ofal cartref gan gynnwys micro-ofalwyr a sefydliadau micro-ofal, gofal diogel plant a gofal diogel llai dwys a modelau hybrid arloesol ar draws gofal maethu a phreswyl i blant a phobl ifanc.

Dylai'r [strategaeth ddata sy'n datblygu](#) ystyried yr angen am wybodaeth amser-real am y farchnad a dangosfwrdd gwybodaeth rheoli. Mewn gwasanaethau plant mae'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) wedi cael ei uwchraddio ac yn cynnig offeryn atgyfeirio e-gaffael a rheoli contractau cenedlaethol ochr yn ochr â chyfres o ddangosfyrddau a deunyddiau adrodd ar gyfer comisiynwyr a darparwyr.

Mae proses gofrestru garlam AGC ac esemptiadau COVID-19 wedi dod â nifer o fuddion. Dylai'r gwell rannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr a chomisiynwyr gael ei ffurfioli ermwyn parhau i hybu gwelliannau.

Crynodeb gweithredol: Data allweddol

Roedd 88 gwasanaeth wedi'i gofrestru o fewn Cymru rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020, yr oedd 75 ohonynt yn wasanaethau newydd.

Tabl 1: Nifer y cofrestriadau gwasanaeth yng Nghymru (1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020)

Lleoliad gofal	Cyfanswm
Cartref gofal oedolion gyda nyrsio	7
Cartref gofal oedolion heb nyrsio	7
Cartref gofal oedolion a phlant heb nyrsio	3
Cartref gofal plant	19
Gwasanaeth cymorth cartref	45
Gwasanaeth maethu	3
Gwasanaeth mabwysiadu	2
Gwasanaeth lleoli oedolion	1
Gwasanaeth eiriolaeth	1
Cyfanswm	88

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru

O'r 88 gwasanaeth:

- Roedd pedwar yn wasanaethau a fodolai'n barod, a ail-gofrestrodd dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).
- Roedd naw yn wasanaethau a fodolai'n barod, a werthwyd/trosglwyddwyd i ddarparwr arall (ail-gofrestru).
- Roedd un yn wasanaeth cymorth cartref sy'n gweithredu yng Nghymru ond wedi'i seilio tu allan i Gymru.

Tabl 2: Cofrestriadau gwasanaeth yn ôl sector y sefydliad cofrestru

Lleoliad gofal	Sector y sefydliad cofrestru					Cyfanswm
	Cwmni elusenol	Darparwr unigol	Cwmni cyfyngedig	Awdurdod lleol	Corff corfforaet hol arall	
Cartref gofal oedolion gyda nyrsio	0	0	6	0	1	7
Cartref gofal oedolion heb nyrsio	0	0	7	0	0	7
Cartref gofal plant	0	0	16	2	1	19
Cartref gofal oedolion a phlant heb nyrsio	0	0	3	0	0	3
Gwasanaeth cymorth cartref	5	2	37	0	1	45
Gwasanaeth maethu	0	0	3	0	0	3
Gwasanaeth mabwysiadu	1	0	1	0	0	2
Gwasanaeth lleoli oedolion	0	0	1	0	0	1
Gwasanaeth eiriolaeth	1	0	0	0	0	1
Cyfanswm	7	2	74	2	3	88

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru

Tabl 3: Cofrestriadau gwasanaeth yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer y cofrestriadau sy'n wasanaethau newydd	Nifer y cofrestriadau nad ydynt yn wasanaethau newydd	Nodiadau ar gofrestrïadau nad ydynt yn wasanaethau newydd	Cyfanswm cofrestriadau gwasanaeth
Blaenau Gwent	4	1	Trosglwyddodd un cartref gofal oedolion i ddarparwr newydd	5
Pen-y-bont ar Ogwr	8	0		8
Caerffili	4	0		4
Caerdydd	20	3	Ail-gofrestrodd un asiantaeth cymorth cartref dan RISCA. Ail-gofrestrodd un asiantaeth faethu annibynnol dan RISCA. Trosglwyddodd un Cartref Gofal Oedolion gyda nyrsio i ddarparwr newydd.	23
Sir Gâr	6	0		6
Conwy	0	2	Trosglwyddodd un Cartref Gofal Oedolion gyda nyrsio i ddarparwr newydd. Ail-gofrestrodd un IFA dan RISCA.	2
Sir Ddinbych	1	0		1
Gwynedd	0	2	Trosglwyddodd un cartref gofal oedolion gyda nyrsio i ddarparwr newydd. Ail-gofrestrodd un cartref gofal oedolion dan RISCA.	2
Ynys Môn	1	0		1
Merthyr Tudful	1	0		1
Castell-nedd Port Talbot	4	0		4
Casnewydd	2	0		2
Sir Benfro	3	0		3
Powys	2	1	Trosglwyddodd un asiantaeth cymorth cartref i ddarparwr newydd.	3
Rhondda Cynon Taf	7	2	Trosglwyddodd dau gartref gofal oedolion gyda nyrsio i ddarparwr newydd.	9
Abertawe	5	1	Trosglwyddodd un cartref gofal oedolion gyda nyrsio i ddarparwr newydd.	6
Torfaen	2	1	Trosglwyddodd asiantaeth cymorth cartref i ddarparwr newydd.	3
Bro Morgannwg	3	0		3
Wrecsam	1	0		1
Tu allan i Gymru	1	0		1
Cyfanswm	75	13		88

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru

Yn ystod y cyfnod (ymateb i COVID-19) hwn, addasodd AGC ei gweithrediadau, gan flaenoriaethu ceisiadau newydd ac amrywiaethau ar gyfer cofrestru i helpu i greu capasiti ychwanegol. Yn y cyfnod hwn creodd AGC [esemptiadau cofrestru dros dro i alluogi darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion argyfwng mewn ymateb i COVID-19](#). Galluogodd hyn ddarparwyr gwasanaeth awdurdod lleol a/neu Fwrdd Iechyd a gofrestrwyd gydag AGC neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)¹⁰ i ddarparu cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref dros dro, i oedolion, mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19.

Yn ogystal, deïllir¹¹ bod naw gwasanaeth newydd¹² yn gweithredu dan esemptiadau COVID-19 am wasanaethau dros dro i'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Tabl 4: Gwasanaethau newydd sy'n gweithredu o dan esemptiadau COVID-19 am wasanaethau dros dro

Awdurdod Lleol	Nifer y gwasanaethau	Darpariaeth uniongyrchol / annibynnol
Sir Benfro	1	Uniongyrchol gan ALI a / neu FI
Sir y Fflint	1	Uniongyrchol gan ALI a / neu FI
Gwynedd	2	Uniongyrchol gan ALI a / neu FI
Abertawe	2	Uniongyrchol gan ALI a / neu FI
Casnewydd	1	Annibynnol
Ceredigion	1	Uniongyrchol gan ALI a / neu FI
Sir Gâr	1	Annibynnol

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru

Cofrestriadau a ganslwyd yng Nghymru (1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020)

Yn y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2020, cafodd cofrestriadau 25 gwasanaeth gofal eu canslo, sef:

- Cafodd pedwar gwasanaeth (dwyllyntaeth faethu annibynnol, un asiantaeth cymorth cartref ac un cartref gofal oedolion heb nyrsio) eu hail-gofrestru dan RISCA (*h.y. trosglwyddodd y cofrestriad, ac arhosodd y gwasanaeth ar agor – mae'r rhain yn cael eu cyfrif o fewn yr 88 cofrestriad uchod*).
- Trosglwyddwyd naw gwasanaeth i berchennog/darparwr arall (*h.y. arhosodd y gwasanaeth ar agor ac mae'r rhain yn cael eu cyfrif o fewn yr 88 cofrestriad uchod*).
- Canslwyd cofrestriad 12 gwasanaeth¹³ (*h.y. ni chawsant eu hail-gofrestru dan RISCA, na'u trosglwyddo i ddarparwr arall*).

¹⁰ <https://www.cqc.org.uk/>. (Saesneg yn unig)

¹¹ Nid yw gwasanaethau sy'n gweithredu dan esemptiadau COVID-19 yn cael eu cofrestru gydag AGC.

¹² Yn ogystal, agorodd Central Surgery Nursing Home, a gomisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ym Mlaenau Gwent, dan yr esemptiadau, gan ddod yn gofrestredig yng Ngorffennaf 2020.

¹³ Nid yw'n bosibl dod i'r rhagdybiaeth bod y gwasanaethau hyn wedi cau yn ystod y cyfnod hwn (Ebrill – Fedi 2020). Gallai gwasanaethau fod wedi dod i ben ers peth amser, gan geisio gwerthu neu drosglwyddo cyn ail-gofrestru yn y pen draw.

Tabl 5: Canslo cofrestrïadau gwasanaethau gofal 1 Ebrill i 30 Medi 2020

Lleoliad gofal	Tynnwyd y gwasanaeth a'i drosglwyddo i ddarparwr newydd	Tynnwyd y gwasanaeth ac ni chafodd ei drosglwyddo i ddarparwr newydd	Gwasanaeth wedi ail-gofrestru dan RISCA	Cyfanswm
Cartref gofal oedolion gyda nyrsio	5	0	0	5
Cartref gofal oedolion heb nyrsio	2	5	1	8
Cartref gofal plant	0	1	0	1
Gwasanaeth cymorth cartref	2	6	1	9
Gwasanaeth maethu annibynnol	0	0	2	2
Cyfanswm	9	12	4	25

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru

Yn y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2020, canslwyd cofrestrïad 12 gwasanaeth gofal (h.y. ni chawsant eu hail-gofrestru dan RISCA, na'u trosglwyddo i ddarparwr arall):

- pum cartref gofal i oedolion (heb nyrsio);
- chwe asiantaeth cymorth cartref; ac
- un cartref gofal i blant.

Hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth reoleiddiol a gyhoeddwyd yng Nghymru (1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020)

Yn y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2020, cyhoeddodd AGC 45 hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth i 15 gwasanaeth yng Nghymru (chwe chartref gofal i oedolion heb nyrsio, pedwar cartref gofal i oedolion gyda nyrsio a phum cartref gofal i blant).

Tabl 6: Hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd yn ôl lleoliad gofal a thema

Lleoliad gofal	Thema hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth				Cyfanswm
	Gofal a chymorth	Amgylchedd	Arweinyddiaeth a rheolaeth	Llesiant	
Cartref gofal oedolion gyda nyrsio	2	1	10	1	14
Cartref gofal oedolion heb nyrsio	2	1	9	1	13
Cartref gofal plant	5	0	12	0	17
Cartref gofal i oedolion a phlant gyda nyrsio	0	1	0	0	1
Cyfanswm	9	3	31	2	45

Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru

Cyhoeddwyd 45 hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth i wasanaethau cartref gofal rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020.

Yn gyfrannol, derbyniodd cartrefi gofal plant fwy o hysbysiau diffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas â materion gofal a chymorth na'r lleoliadau gofal eraill (5 o 17).

Mae cyhoeddi hysbysiau ar yr adeg hon yn awgrymu pryder sylweddol wrth ystyried, oherwydd y pandemig, y cafodd graddfa arolygu a monitro contractau ei gostwng er mwyn lleihau ymweliadau nad ydynt yn hanfodol â gwasanaethau, gyda'r potensial felly i trosglwyddo'r feirws.

Asesiad risg y farchnad genedlaethol

Bernir yn eang bod gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru wedi ymateb yn effeithiol i'r pwysau ychwanegol a'r risgiau a achoswyd gan bandemig COVID-19.

Mae darparwyr gofal a chymorth wedi cydnabod bod y cyllid ychwanegol a'r PPE am ddim, y gefnogaeth, a'r dull cyd-gynhyrchiol o ddatblygu polisi yng Nghymru wedi bod yn sylweddol wahanol i Loegr, gan alluogi'r gwasanaethau i barhau i weithredu.

Hefyd cydnabyddir y bu'r farchnad gofal cymdeithasol mewn anhawster cyn y pandemig, gyda rhai segmentau'r farchnad yn dioddef prinderau ariannol sylweddol, llawer os nad pob un yn cael anawsterau wrth recriwtio a chadw'r gweithlu a heriau wrth ymateb i reoliadau newydd a gofynion newydd am gymwysterau'r gweithlu.

Mae'r risgiau a'r heriau hyn yn bodoli o hyd, gyda'r pandemig ac ymadael â'r Undeb Ewropeidd yn dod â mwy o ansicrwydd.

Crynohir y risgiau i ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn y dyfodol isod:

GWLEIDYDDOL ECONOMAIDD	<p>Etholiadau'r Senedd 2021; polisi a chyllid gofal cymdeithasol yn y dyfodol.</p> <p>Lefel ac amllder 'taliadau trydydd parti' a chyfradd taliadau hunan-arianwyr yn dystiolaeth o ddiffyg rhwng ffioedd sy'n fforddiadwy i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol. I bobl hŷn, cartrefi gofal a chostau cyflenwi cyn y pandemig. Adenillion ar gyfalaf y fethodoleg ffioedd yn aml yn annigonol i dalu cost cyfalaf am eiddo newydd sy'n cael eu codi (£120k/gwely).</p> <p>Nid yw'r gyfradd gofal nyrsio a ariennir yn talu cost lawn darparu gofal nyrsio a phrinder methodoleg gyllido genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus (CHC).</p> <p>Costau uwch darpariaeth o ganlyniad i'r pandemig (arferion atal a rheoli haint, cyfraddau tâl ychwanegol sy'n ofynnol i ddenu a chadw staff sy'n gweithio mewn amgylcheddau risg-uchel, buddsoddi mewn seilwaith digidol a gwariant cyfalaf ar wasanaethau mewn adeiladau, codiadau mewn premiymau yswiriant i rai darparwyr). Arhosiadau byrrach, marwolaethau ychwanegol, ac effaith embargos COVID-19 ar feddiannaeth cartrefi gofal (cynladwyedd ariannol), pryder am golled Cyllid Caledi. Ffioedd anghyson gofalwyr maeth gan Asiantaeth nad ydynt yn ddigon hyfyw yn ariannol i ffenu gofalwyr maeth i fod yn hunan-gyflogedig, yn arbennig lle bo'n rhaid iddynt o bosibl gadael cyflogaeth am dâl i gyflawni rôl gofalu.</p> <p>Gydag ansicrwydd dros yr amodau masnachu ariannol rhwng y DU ac Ewrop, gall buddsoddiadau cronfeydd rhagfantoli a gafodd eu taro'n galed yn y DU yn ystod COVID-19 gael eu taro'n galetach ar ôl y pontio o'r UE. Pe bai cwmnïau'r DU yn dod yn llai deniadol i fuddsoddwyr, gallai fod effaith ddifrifol ar y darparwyr gofal preifat mwyaf ledled y DU. Yng ngofal plant yng Nghymru, mae'r risg hwn yn gysylltiedig yn benodol â thri darparwr preifat mawr¹⁴.</p>
CYMDEITHASOL	<p>System fewnfudo yn dilyn gadael yr UE yn debygol o leihau'n sylweddol mudo am swyddi tâl isel a thâl canolig o Ewrop i'r DU¹⁵.</p> <p>Diffyg argaeledd gweithlu, e.e. mewn grwpiau risg uchel neu mewn aelwyd â pherson risg uchel, hunan-ynysu, straen ychwanegol a blinder.</p> <p>Amllder uchel contractau dim oriau, yn arbennig ymhlith gwasanaethau gofal cartref, lle mae gweithwyr yn gofyn am y rhain er mwyn rheoli ymrwymïadau teuluol/gofalu eraill, ochr yn ochr â gwaith.</p>
TECHNEGOL	<p>Effaith dulliau comisiynu/cyllido/caffael, e.e. strategaethau sy'n ceisio 'rheoli' siâp y farchnad/gall costau prisiau effeithio ar gystadleuaeth a chynladwyedd; effaith aildendro a rhwymedigaethau TUPE ar gostau a chynladwyedd darparwyr.</p>
CYFREITHIOL	<p>Rhwymedigaethau uwch a cholledion heb eu hyswirio yn arwain at ansolfedd (mae gan y mwyafrif o polisiâu yswiriant os nad pob un eithriadau SARS a COVID-19 erbyn hyn). Mae hyn yn bryder arbennig mewn perthynas â rhwymedigaethau i/dros ymwelwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld.</p>
AMGYLCHEDDOL	<p>Stoc cartrefi gofal oedolion sy'n heneiddio, gyda chyfran uchel o wasanaethau heb doiledau en-suite a chawodydd a nifer sylweddol ag ystafelloedd dwbl. Ynghyd â phroffil perchnogion busnes sy'n heneiddio, mae hyn hefyd yn codi risg colled gwasanaethau adeg gwerthu'r adeilad oherwydd costau adnewyddu (tystiolaeth bod costau adnewyddu yn £180/y person/yr wythnos uwchlaw ffi gofal awdurdod lleol). Defnydd cynyddol eiddo ar rent ar gyfer cartrefi gofal plant meddiannaeth sengl gyda stoc tai ansawdd is am bobl ifanc risg-uchel.</p> <p>Mae hyn yn cael ei hybu gan dystiolaeth gynyddol o agwedd "Not In My Back Yard" (NIMBY) mewn cymunedau tuag at geisiadau datblygu am gartrefi plant â hyd at bedwar person ifanc, wedi'i gwaethygu gan ymdriniaeth negyddol yn y wasg, a chefnogaeth am ymgyrch arweinwyr lleol sy'n gwrthwynebu ceisiadau cynllunio.</p>

¹⁴ <https://www.ft.com/content/1583f02f-2973-4597-942d-98a25c158a65> (Saesneg yn unig).

¹⁵ <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Polisi-mudo%E2%80%99r-DU-ar-gweithlu-gofal-cymdeithasol-a-GIG-Cymru.pdf>.

¹⁶ <https://www.jcwi.org.uk/when-the-clapping-stops-eu-care-workers-after-brexit> (Saesneg yn unig).

Cyflwr y farchnad

Pa ystyriaethau oedd yn effeithio ar y farchnad cyn y pandemig?

Heriau gweithlu	
<p>Recriwtio a chadw</p>	<p>Yn gyffredinol, bu codiad yng nghyfanswm yr hysbysebion swydd ers dechrau pandemig COVID-19 ym Mawrth 2020. Am swyddi lefel rheoli, mae hyn yn parhau tuedd hwy tuag i fyny mewn hysbysebion swydd unigryw a ddechreuodd yn haf 2019. Bu codiad sylweddol yn nfer y swyddi nyrsio a hysbysebir, gan gynnwys yn ystod pandemig COVID-19 ²⁰</p>
<p>Canfu ymchwil gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) 17 cyn y pandemig fod yr ystyriaethau sy'n effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol yn gymhleth¹⁸</p>	<p><u>Tâl ac amodau</u></p> <p>Mae tâl isel yn rhwystr i ddenu pobl â'r gwerthoedd a chymhelliant cywir i mewn i rolau gofalu, yn enwedig yng ngoleuni'r hyn sydd dan sylw yn y gwaith. Mae cystadleuaeth rhwng cyflogwyr (iechyd a gofal) a gallu'r GIG i ddenu gweithwyr profiadol a/neu gymwys o fannau eraill yn y sector yn effeithio ar gadw staff. Ers dechrau'r pandemig, dengys data EMSI²¹ gynnydd cyson a bach mewn cyflogau a hysbysebir ar draws rheoli gofal a swyddi gofal cymdeithasol lefel mynediad.</p>
<p>Mae gwefan WeCare. Cymru¹⁹ wedi'i datblygu'n gyflym i gefnogi ymatebion i heriau yn ystod y pandemig</p>	<p>Nododd WIHSC broblemau allweddol sy'n cyfrannu at yr anawsterau a gafwyd wrth recriwtio a chadw cyflogwyr mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Cyfraddau Tâl (<i>gwahaniaethau sylweddol ar draws gofal a gomisiynir a staff gofal uniongyrchol awdurdodau lleol a'r GIG</i>) ac amodau (<i>buddion cyflogwyr yn amrywio rhwng cyflogwyr</i>). 2) Swyddi gwag a throsiant uchel ymhlith staff gofal. 3) Statws isel gwaith gofal cymdeithasol (Nododd strategaeth gweithlu HEIW ac AGC ddiffyg cysondeb parch ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol). 4) Oriau gweithio a phatrymau sifft (<i>yn arbennig mewn cartrefi gofal</i>). 5) Natur wledig a diffyg cludiant (<i>ym maes gofal yn y cartref a chartrefi gofal</i>).
<p>Effaith y gwaith ar iechyd a llesiant personol</p>	<p><u>Effaith rheoleiddio</u></p> <p>Nododd arolwg UKHCA (Saesneg yn unig) cyn cofrestrriad gorfodol gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gofal cartref fod nifer uchel o ddarparwyr yn disgwyl colli staff oherwydd y gofynion cymwysterau a chofrestru.</p> <p>Yn ôl y cyfweiliadau a gynhaliwyd gan WIHSC ac adolygiad Uwchlaw a Thu Hwnt AGC gall y gwaith a wneir fod dan amgylcheddau anodd (cartrefi pobl eu hun) a bod yn straenus/beichus yn gorfforol ac yn emosiynol (gwaith sy'n cynnwys symud a lleoli, gofal pobl ar ddiwedd bywyd).</p> <p>Yn yr un modd ni ddylid tanamcangyfrif lefel y cyfrifoldeb personol a ysgwyddir gan y gweithwyr hyn am lefel y tâl (bod yn agored i honiadau a chamdriniaeth personol, bod yr ymatebwr cyntaf i bobl sydd wedi syrthio, yn sâl iawn neu sydd yn anffodus wedi marw).</p>

¹⁷ Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ([WIHSC](#)).

¹⁸ Mae heriau recriwtio yn cynnwys cyflogau isel, canfyddiad o'r gwaith fel rolau isel eu sgiliau ac isel eu statws, contractau (dim oriau / contract dros dro neu f a gweithio sifftiau) a sefydlogrwydd swydd. Mae'r GIG yn cyfrannu at her cadw staff yn y sector gofal cymdeithasol (trydydd, annibynnol ac awdurdod lleol) oherwydd cyflogau uwch/buddion gwell.

¹⁹ <https://gofalwn.cymru/>.

²⁰ Lluniwyd y data gan ddefnyddio EMSI (economicmodelling.co.uk), offeryn trwyddedig sy'n olrhain cyflwr y farchnad lafur. (Saesneg yn unig)

²¹ Lluniwyd y data gan ddefnyddio EMSI (economicmodelling.co.uk), offeryn trwyddedig sy'n olrhain cyflwr y farchnad lafur. (Saesneg yn unig)

Effaith strategaeth a methodoleg comisiynu a chaffael**Caffael**


Nododd adolygiad WIHSC rwyg cynyddol rhwng y galw am a'r gwariant ar ofal cartref a dealltwriaeth o'r costau wrth mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol.

Ymgeisiau i 'reoli' marchnadoedd drwy gapio lefelau ffiodd a/neu fecanweithiau ymgodi – mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Datgan ffioedd cartrefi gofal pobl hŷn i 'farchnad rydd'.
- Contractau fframwaith hirdymor (pum mlynedd), a bennir ar bris penodedig/cymal ymgodiad penodedig heb rannu risg (pum mlynedd yn ôl nid oedd gofynion isafswm cyflog na chyfraniadau pensiwn cyflogwr gorfodol). Er bod y strategaeth hon yn effeithiol wrth reoli costau'r comisiynydd mae'n gyrru i lawr telerau ac amodau gweithwyr ac yn cynyddu risgiau i ddarparwyr sy'n arwain at freuder yn y farchnad.
- Systemau prynu dynamig a ddisgrifir/canfyddir gan rai fel ras i'r gwaelod am ffioedd ac ansawdd. Pan fydd lefelau cystadleuaeth yn isel, oherwydd nifer isel o ddarparwyr/gweithlu annigonol – mae'n dod yn farchnad 'cyflenwyr', gall comisiynwyr golli rheolaeth dros gostau. Risg o greu amodau tebyg i 'cartel'.
- Lle bo'r galw yn uwch na'r cyflenwad, mae cynnydd yn nefnydd darparwyr tu allan i'r fframwaith.
- Mae hyn wedi cynyddu yn ystod y pandemig mewn gofal cartref, er enghraifft, wedi'i liniaru cymaint â phosibl gan broses diwydrwydd dyladwy gyflym mewn ymgais i fodloni'r galw.
- Marchnadoedd wedi'u tanddatblygu fel gofal plant diogel a gofal llai diogel. Gall darparwyr fynnu prisiau uchel gyda llai o dryloywder ffioedd a/neu mae defnydd uwch ar ddarpariaeth heb ei rheoleiddio.

Cyfleoedd am ddyfodol marchnadoedd gofal cymdeithasol yng Nghymru

Gall problemau capasiti, rhwystrau, neu ddiffyg argaeledd mewn lleoliadau gwasanaeth 'prif ffrwd' fel cartrefi gofal, gwasanaethau dydd a chartrefi gofal a gomisiynir gynnig cyfleoedd am dwf mewn sectorau/dulliau newydd fel:



Rhannu bywydau

Fel dewis amgen i ofal preswyl, i bobl sy'n methu aros adref, am gymorth dydd ac egwyliau byr.

Mentrau cymunedol/ meicro am ofal a chymorth cartref

Yn hytrach na dewis amgen yn lle Taliadau Uniongyrchol a chymorth cartref rheoleiddiedig traddodiadol, mae hyn yn cynnig model ***ychwanegol*** o ofal a chymorth cartref, trwy ddatblygu a chefnogi sefydliadau gofal meicro/ gofalwyr meicro a gall ddenu gweithlu gwahanol/ehangach. Mae enghreifftiau yng Nghymru yn cynnwys [Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Penfro](#).

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru²² wedi ysgrifennu am fodelau gofal cartref amgen.

Yng Ngwlad yr Haf lle mae mentrau meicro-ofal wedi'u hyrwyddo gan yr awdurdod lleol, mae llawer wedi datblygu gyda'r niferoedd yn neidio o tua 50 i fwy na 450 dros bum mlynedd. Dangosodd gwerthusiad yn 2017 fod y 223 o feicro-fentrau a oedd ar waith ar y pryd yn cyflenwi arbedion blynyddol o £938,607, ar yr un pryd â gwneud swydd well o gyflawni canlyniadau nag asiantaethau gofal cartref traddodiadol.

Canfu'r [New Economics Foundation](#) (Saesneg yn unig) fod meicro-fentrau yn:

- Lledaenu ffurf o entrepreneuriaeth sydd ar gael i ystod eang o bobl ac o fudd iddynt, gan gynnwys unigolion aeddfed sy'n chwilio am waith hyblyg, boddhaus; felly, yn hytrach na chystadlu â gwasanaethau prif ffrwd am weithlu, gall y dull hwn gynyddu'r gweithlu.
- Creu rolau sy'n cynnig mwy o awtonomi a rheolaeth na swydd gofal nodweddiadol (teimlai 61% o'r meicro-entrepreneuriaid a arolygwyd dan lai o straen a phryder yn eu gwaith).
- Cefnogi recriwtio ac, yn anad dim, cadw staff mewn gofal cymdeithasol (byddai 35% o'r meicro-entrepreneuriaid a arolygwyd yn annhebygol o fod yn gweithio mewn gofal cymdeithasol os nad oeddent wedi sefydlu meicro-fenter.
- Galluogi gofal wedi'i bersonoleiddio mwy, drwy ddatganoli penderfyniadau i bobl sydd angen cymorth, a'r rhai sy'n ei ddarparu.
- Creu cysylltiadau cymdeithasol, drwy helpu pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau ac i feithrin a chynnal perthnasoedd ag eraill gan fagu cydnerthedd, creadigedd ac amrywiaeth yn y sector gofal cymdeithasol, ac mewn economïau lleol yn ehangach.

²² <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Modelau-amgen-o-ofal-cartref.pdf>

Cyfleoedd y dyfodol i ddarpariaeth plant a phobl ifanc ymdrin â digonolrwydd a bylchau yn y farchnad

I fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir gan fodolau o'r fath bydd angen buddsoddiad a chymorth datblygu mewn gweithgareddau datblygu cymunedol seiliedig ar asedau, mewn rhaglenni fel:

- Rhannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.
- Ymchwil a datblygu dulliau wedi'u galluogi gan dechnoleg.
- Sefydlu safonau ansawdd cyson a guytunir yn genedlaethol am feicro-fentrau gofal sydd heb eu rheoleiddio.
- Ymchwil i'r cwmpas am sefydliadau cymorth cydweithredol ar gyfer meicro-fentrau gofal.

- Defnydd sector cyhoeddus o'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) ac arian trawsnewid i dargedu'r bwllch risg uchaf a mwyaf mewn darpariaeth. Hefyd mae cyfle gwirioneddol am raglen a noddur ac a reolir yn genedlaethol o ddatblygiad gofal diogel a gofal llai diogel. Byddai angen i hyn ymdrin â materion comisiynu integredig pecynnau cymhleth, yn benodol iechyd meddwl, dargyfeirio diogel a gwelyau argyfwng brys.
- Rhagor o gydweithredu rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws darpariaeth gwasanaethau preswyl a maethu. Gwelir y cyfleoedd mwyaf mewn maethu lle mae gan y trydydd sector gynghrair sefydledig dan faner Darparwyr Maethu Elusennol Cymru. Er mai'r bwriad polisi efallai yw cynyddu darpariaeth gofal maeth awdurdodau lleol, dylai comisiynwyr ofalu i feithrin SMEs sy'n bodoli'n barod yng Nghymru.
- Mwy o arloesi modelau hybrid rhwng gofal maeth a phreswyl i'r plant a phobl ifanc hynny a fyddai'n ddelfrydol mewn teulu maeth traddodiadol ond oherwydd lleihad mewn gofalwyr angen atebion newydd ar draws y sbectrwm lleoliadau.

Mae llawer i ddysgu ledled Cymru mewn rhannu arfer mewn datblygiadau 'ymyl gofal' ac ad-uno teuluol a chartrefi gofal plant preswyl awdurdodau lleol newydd eu sefydlu.

Argymhellion

Wrth gynhyrchu'r asesiad/adolygiad hwn o'r farchnad, mae'r awduron wedi profi:

- Diffyg gwybodaeth rheoli ansawdd da y cyfeirir ati ym mhapur Heriau'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol '[Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn: Gwella ansawdd gwybodaeth i lywio comisiynu](#)' (Saesneg yn unig) ac anawsterau wrth gyrchu a gallu cyhoeddi'r data sydd ar gael; ac
- Adborth gan gynllunwyr iechyd a gofal o rwystredigaeth am rwystrau i rannu gwybodaeth ar draws y system a diffyg systemau a gweithdrefnau am rannu gwybodaeth yn ddiogel.

Mae hyn yn codi cwestiynau hefyd am argaeledd set ddata addas i awdurdodau lleol wneud y dyfarniadau angenrheidiol yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021 a ragwelir.

Mae'r awduron yn croesawu'r [adroddiad darganfod, a gynhyrchwyd mewn ymateb i ofyniad i bennu cwmpas datblygiad strategaeth ddata i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#) ac yn cefnogi'r cynigion, gyda'r camau a argymhellir ar fyrder.

Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn cefnogi'r cynnig am ddatblygiad strategaeth ddata ac yn argymhell datblygu dangosfwrdd gwybodaeth amser real am y farchnad a gwybodaeth reoli.

Er nad yw'r effaith lawn wedi'i deall eto o bosibl, mae trafodaethau â chomisiynwyr a darparwyr wedi amlygu manteision y gwasanaeth cofrestru carlam a gyflawnwyd o dan drefniadau COVID-19; mae enghreifftiau a roddwyd wedi lleihau'r amser ar gyfer cofrestru gwasanaeth preswyl o chwe mis i chwe wythnos a'r capasiti ychwanegol yn y farchnad mae hyn wedi'i gynnig.

Hefyd mae comisiynwyr a darparwyr wedi cydnabod manteision gweithio'n agosach a rhannu gwybodaeth ar draws comisiynwyr, gwneuthurwyr polisi a rheoleiddwyr.

Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn argymhell bod AGC yn adolygu manteision a risgiau'r broses gofrestru garlam hon ac ar y cyd â chomisiynwyr, yn adolygu'r gwell rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr a chomisiynwyr a sut mae'r gwersi yn gallu parhau i yrru gwelliannau.

Er bod y cyllid a chymorth ychwanegol a gynigiwyd i ddarparwyr gofal yn ystod pandemig hyd yma wedi lleihau unrhyw effaith niweidiol ar sefydlogrwydd y farchnad a chynladwyedd darparwyr unigol, mae'n amlwg bod y pandemig wedi ehangu neu o leiaf wedi bwrw goleuni cliriach ar y diffygion a oedd eisoes yn bodoli o fewn y farchnad gofal cymdeithasol.

Mae pryder gwirioneddol am effaith tynnu cefnogaeth fel PPE di-dâl a chyllid caledi am gostau ychwanegol ac eithriadol a lleoedd gwag mewn cartrefi gofal. Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi gwneud cryn dipyn i ddangos costau gofal mewn Gwasanaethau Oedolion ar gyfer 2021/22.

Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn argymhell bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd:

- **Yn adolygu costau 2021/22 gofal oedolion a ragwelir, yn casglu tystiolaeth leol ac yn rhannu eu hasesiad o'r bwlch mewn cyllidebau presennol a'r costau gofal hyn i lywio datblygiad polisi Dyfodol Teg i Waith a Gofal Cymdeithasol.**
- **Cynnal meincnodi costau cymharol a monitro canlyniadau darpariaeth sector cyhoeddus yn erbyn y sector annibynnol fel bod golwg llawn ar draws y farchnad.**

Atodiad 1 - Rhestr o'r ffigurau a'r tablau a nodir yn yr adroddiad llawn (sensitif swyddogol)

Ffigurau

- Ffigur 1: Nifer y lleoliadau yn ôl math o wasanaeth o 1 Hydref 2016 i 31 Mawrth 2020
- Ffigur 2: Cyfanswm y gwelyau mewn cartrefi plant cofrestredig, yn ôl perchnogaeth
- Ffigur 3: Sbectwm Lleoliadau Gwasanaethau Plant
- Ffigur 4: Nifer y plant sy'n byw mewn cartref maeth, Cymru
- Ffigur 5: Nifer y plant sy'n byw mewn cartref maeth, yn ôl rhanbarth
- Ffigur 6: Aseiad Perfformiad Ansawdd cyflenwi canlyniadau gan ddarparwyr, Cymru, 2020
- Ffigur 7: Cynrychiolaeth ymatebion positif a negyddol o Arolwg Canlyniadau 360 Gradd, Cymru, 2020
- Ffigur 8: Nifer y cleifion yn aros i'w rhyddhau i lwybr D2RA, Cymru
- Ffigur 9: Nifer y cleifion ar lwybr D2RA y mae eu rhyddhau wedi'i ohirio, Cymru
- Ffigur 10: Nifer y cleifion sy'n osgoi D2RA ac y mae eu rhyddhau wedi'i ohirio, Cymru
- Ffigur 11: Rheswm am absenoldeb o'r gweithlu gofal cymdeithasol, Cymru
- Ffigur 12: Profi wythnosol staff gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, Cymru
- Ffigur 13: Profi wythnosol staff gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, yn ôl canlyniadau prawf positif yn unig, Cymru
- Ffigur 14: Cyfanswm y ceisiadau gwasanaeth wythnosol i awdurdodau lleol am ofal preswyl, Cymru
- Ffigur 15: Cyfanswm y ceisiadau gwasanaeth wythnosol i awdurdodau lleol am ofal cartref, Cymru
- Ffigur 16: Cyfanswm y ceisiadau gwasanaeth wythnosol am ofal ailalluogi, Cymru
- Ffigur 17: Nifer y pecynnau gofal a leihawyd neu a dynnwyd yn ôl, yn ôl pwy dynnodd neu a leihaodd y pecyn
- Ffigur 18: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i weithredu gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion (statws RAG)
- Ffigur 19: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i osod oedolion mewn lleoliadau gofal preswyl priodol (statws RAG)
- Ffigur 20: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i ddarparu gofal i oedolion yn eu cartref (statws RAG)
- Ffigur 21: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i ddarparu gwasanaethau ailalluogi oedolion (statws RAG)
- Ffigur 22: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i ymgymryd ag asesiadau oedolion (statws RAG)
- Ffigur 23: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i weithredu gwasanaethau gofal cymdeithasol plant (statws RAG)
- Ffigur 24: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i gysylltu â phlant sydd angen gofal a chymorth (statws RAG)
- Ffigur 25: Canfyddiadau wythnosol awdurdodau lleol o'u gallu i gysylltu â phlant sy'n ymadael â gofal (statws RAG)
- Ffigur 26: Nifer y swyddi gofal cymdeithasol, yn ôl hynafedd, Cymru
- Ffigur 27: Nifer y swyddi gofal cymdeithasol unigryw, yn ôl hynafedd, Cymru
- Ffigur 28: Hys hysbysebu canolrifol swyddi gofal cymdeithasol unigryw, yn ôl hynafedd, Cymru
- Ffigur 29: Cyflog canolrifol a hysbysebwyd swyddi gofal cymdeithasol unigryw, yn ôl hynafedd, Cymru
- Ffigur 30: Prif godau SOC mewn grŵp uwch reolwyr gofal, gan gynnwys nyrsys, Cymru
- Ffigur 31: Prif godau SOC mewn grŵp uwch reolwyr gofal, heb gynnwys nyrsys, Cymru
- Ffigur 32: Cartrefi gofal plant yng Nghymru, yn ôl cod post
- Ffigur 33: Nifer y lleoliadau ansafonol unigol, dwyochrog neu deirochrog a ariannwyd yng Nghymru, Mawrth 2016 i Mawrth 2020
- Ffigur 34: Nifer y Plant yn Derbyn Gofal mewn lleoliadau safonol/ansafonol a ddarperir yn fewnol yn ôl awdurdod lleol, Cymru, Mawrth 2013 i Fawrth 2020

Tablau

- Tabl 1: Nifer y cofrestriadau gwasanaeth yng Nghymru (1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020)
- Tabl 2: Cofrestriadau gwasanaeth yn ôl sector y sefydliad cofrestru
- Tabl 3: Cofrestriadau gwasanaeth yn ôl awdurdod lleol
- Tabl 4: Gwasanaethau newydd yn gweithredu dan esemptiadau COVID-19 am wasanaethau dros dro
- Tabl 5: Cansliadau cofrestriad gwasanaethau gofal 1 Ebrill i 30 Medi 2020
- Tabl 6: Hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd yn ôl lleoliad gofal a thema
- Tabl 7: Cofrestriadau gwasanaeth newydd 1 Ebrill – 30 Medi 2020
- Tabl 8: Cofrestriadau cartrefi gofal newydd (1 Ebrill - 30 Medi 2020), yn ôl sector y sefydliad cofrestru
- Tabl 9: Ffioedd wythnosol cyfartalog cartrefi gofal pobl hŷn a dalwyd, Cymru 2020/21
- Tabl 10: Ffioedd wythnosol cyfartalog a chynaliadwy cartrefi gofal pobl hŷn, Cymru
- Tabl 11: Darparwyr annibynnol mwyaf y DU: Cyfran o farchnad gwelyau preswyl plant Cymru, data Chwefror 2021
- Tabl 12: Cofrestriadau asiantaeth cymorth cartref yn ôl ardal awdurdod lleol a sector y sefydliad cofrestru, 1 Ebrill - 30 Medi 2020
- Tabl 13: Darlun o gostau o Fatrics Cost Gofal y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol am 2021/22
- Tabl 14: Nifer y darparwyr gofal maeth a lleoliadau gofal yng Nghymru yn ôl categori darparwr, data Ionawr 2021
- Tabl 15: Cyfran darparwyr mwyaf y sector annibynnol o'r farchnad lleoliadau maeth, Cymru, data Ionawr 2021
- Tabl 16: Dyfarniadau'r gronfa galedi am bob pen y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol, mis, ac ar draws pob cyfnod, Mawrth i Fedi 20, yn ôl lleoliad gofal a hawliad, Mawrth i Fedi 2020
- Tabl 17: Dyfarniadau'r gronfa galedi am bob pen y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol, mis, ac ar draws pob cyfnod, Mawrth i Fedi 20, yn ôl awdurdod lleol a mis, Mawrth i Fedi 2020
- Tabl 18: Dyfarniadau'r gronfa galedi am bob pen y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol, mis, ac ar draws pob cyfnod, Mawrth i Fedi 2020
- Tabl 19: Nifer yr hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd, yn ôl lleoliad gofal a thema, 1 Ebrill i 30 Medi 2020, Cymru
- Tabl 20: Nifer y gwasanaethau oedolion a phlant a gofrestrwyd yng Nghymru, yn ôl lleoliad gofal a sector y sefydliad cofrestru, 1 Ebrill to 30 Medi 2020
- Tabl 21: Nifer y gwasanaethau oedolion a phlant a ganslwyd yng Nghymru, yn ôl lleoliad gofal a math o ganslo, 1 Ebrill i 30 Medi 2020
- Tabl 22: Nifer yr hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd, yn ôl awdurdod lleol, lleoliad gofal, a thema, 1 Ebrill i 30 Medi 2020
- Tabl 23: Nifer y gwasanaethau oedolion a phlant a gofrestrwyd, yn ôl awdurdod lleol, lleoliad gofal, a sector y sefydliad cofrestru, 1 Ebrill i 30 Medi 2020
- Tabl 24: Nifer y gwasanaethau oedolion a phlant a ganslwyd, yn ôl awdurdod lleol, lleoliad gofal, a math o ganslo, 1 Ebrill i 30 Medi 2020
- Tabl 25: Codau Galwedigaethol Safonol (SOC) a ddefnyddir i ddiffinio'r sector gofal cymdeithasol
- Tabl 26: Nifer y postiadau swydd unigryw, yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn y dadansoddiad, Rhagfyr 2018 i Dachwedd 2020
- Tabl 27: Nifer y darparwyr a lleoliadau gofal preswyl yng Nghymru yn ôl categori cofrestru a chategori darparwr, data Ionawr 2021
- Tabl 28: Nifer y darparwyr gofal maeth a lleoliadau gofal yng Nghymru yn ôl categori darparwr, data Ionawr 2021
- Tabl 29: Nifer y lleoliadau ansafonol yng Nghymru yn ôl trefniant ariannu (unigol, dwyochrog, teirochrog)
- Tabl 30: Nifer y lleoliadau mewnol yng Nghymru
- Tabl 31: Cost uchaf a chyfartalog lleoliadau preswyl safonol yng Nghymru
- Tabl 32: Cost uchaf a chyfartalog lleoliadau maethu safonol yng Nghymru
- Tabl 33: Cost uchaf a chyfartalog lleoliadau preswyl ansafonol yng Nghymru
- Tabl 34: Cost uchaf a chyfartalog lleoliadau maethu ansafonol yng Nghymru
- Tabl 35: Cost uchaf a chyfartalog lleoliadau preswyl rhiant a phlentyn yng Nghymru
- Tabl 36: Cost uchaf a chyfartalog lleoliadau maethu rhiant a phlentyn yng Nghymru

Tabl 37: Darparwyr annibynnol mwyaf y DU: Cyfran o farchnad gwelyau preswyl plant Cymru, data Chwefror 2021

Tabl 38: Darparwyr annibynnol mwyaf y DU: Cyfran o farchnad darpariaeth gofal maeth Cymru, data Chwefror 2021



**Am fanylion ynghylch yr adroddiad hwn
cysylltwch ag:**

Enw: Maria Bell

E-bost: Maria.Bell@wlga.gov.uk

Ffôn: 07436 140838